

Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Delio â Phryderon gan Staff

Cyfeirio at y cymorth sydd ar gael e.e. Gwasanaeth Lles Cyflogaeth, Undebau Llafur ac ati.

CAM 1: Codi pryder drwy un o'r llwybrau canlynol - wedi rhoi cynnig ar lwybrau blaenorol neu nid oes dewis amgen ar gael

Gweithdrefn Codi Pryderon (cam ffurfiol - rheolwr neu uwch-arweinydd)

F2SU

Falf
Ddiogelu

Llythyrau
Anhysbys

Asiantaeth
allanol

CAM 2: Cofnodi'r Pryder

Rhaid i BOB pryder ffurfiol gael ei gofnodi gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol - dylid gwirio unrhyw achos o ddyblygu cyn parhau (noder - os yw'r pryder yn cynnwys y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, caiff ei atgyfeirio'n uniongyrchol at y Prif Weithredwr a'i gofnodi felly).

Pryderon i'w cydnabod o fewn 2 diwrnod gwaith a'r dull cyfathrebu/amlder y cyfathrebu i'w gytuno

CAM 3: Brysbennu'r pryder

Caiff y pryder ei frysennu gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Cadeirydd/Cyfarwyddwr Gweithredol perthnasol o fewn 3 diwrnod gwaith

CAM 4: Pryder yn cael ei drosglwyddo i'r unigolyn a nodwyd i weithredu arno

Noder: os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod Gweithredol, fe'i cyfeirir at y Prif Weithredwr, os yw'n ymwneud â'r Prif Weithredwr, caiff ei godi gyda'r Cadeirydd, os yw'n ymwneud â'r Cadeirydd, caiff ei godi gydag Ysgrifennydd y Cabinet

CAM 5: Ymchwilio, Gweithredu ac Adborth

Dull/amlder y cyfathrebu a mesurau cyfrinachedd i'w cytuno gyda'r sawl a gododd y pryder.

Rheolwr yr ymchwiliad yn cael ei benodi a'r 'unigolyn a nodwyd' yn rhoi'r wybodaeth iddo

Dull canfod ffeithiau/ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 30 diwrnod gwaith - yn cynnwys cyfweiliadau â thystion, archwilio dogfennau ac ati (Noder: os na fydd yn bosibl gwneud hyn o fewn 30 diwrnod caiff yr unigolyn ei hysbysu)

Rheolwr yr ymchwiliad yn rhoi adborth i'r 'unigolyn a nodwyd'

Y camau priodol yn cael eu cymryd

Adborth yn cael ei roi i'r sawl a gododd y pryder

CAM 6: Cofnodi'r Canlyniad

Rhaid i ganlyniad BOB pryder ffurfiol gael ei gofnodi gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, a chaiff ei adrodd i'r Bwrdd ar sail chwarterol a'r HSMB pan gaiff ei dderbyn

Os nad yw'r unigolyn yn fodlon bod y mater wedi'i ddatrys, gall godi'r pryder unwaith eto drwy lwybr gwahanol neu gyda rheolwr ar lefel uwch

Mae 'chwythu'r chwiban' neu 'wneud datgeliad er budd y cyhoedd' yn rhoi diogelwch penodol i'r unigolyn. Bydd hyn yn digwydd pan fydd unigolyn yn datgelu ei fod yn credu'n rhesymol fod un neu fwy o'r canlynol naill ai'n digwydd, wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, a'i fod er budd y cyhoedd: -

- Mae iechyd a/neu ddiogelwch rhywun mewn perygl o ganlyniad i weithredu neu ddiffyg gweithredu
- Achoswyd difrod i'r amgylchedd
- Mae trosedd wedi'i chyflawni
- Torrwyd rhwymedigaeth gyfreithiol
- Cafwyd ymgais fwriadol i guddio un o'r pethau hyn